

Llawlyfr Cymdeithasau 2006-7

(canllawiau llawn ar gyfer sefydlu a rhedeg cymdeithas)

Sut i sefydlu a rhedeg cymdeithas ymgysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i baratoi er mwyn cynnig yr holl wybodaeth yr ydych ei angen er mwyn sefydlu a chynnal cymdeithas gyda golwg ar ymgysylltu ag Undeb y Myfyrwyr.

Gofynion Ymgysylltu

Er mwyn ymgysylltu (h.y. i'ch cymdeithas ddod yn rhan o Undeb y Myfyrwyr) rhaid i chi:

- gyflwyno rhestr o 15 o leiaf o aelodau cyffredin (pobl sy'n fyfyrwyr) i'r Swyddog Cysylltiadau a Chymdeithasau (SCC); ni chaiff aelodau nad ydynt yn fyfyrwyr fod yn fwy na chwarter eich aelodaeth
- basio cyfansoddiad sy'n gyson ag un Undeb y Myfyrwyr (ar gael ar http://www.undeb.bangor.ac.uk/dem/)
- gyflwyno esboniad manwl o amcanion y gymdeithas, ynghyd â disgrifiad o weithgareddau yr ydych wedi'u cyflawni a rhai arfaethedig
- gyflwyno cyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn
- gyflwyno manylion i'r SCC ynghylch ffioedd aelodaeth (lleiafswm o £2.50 ar gyfer pob aelod)
- ffurfio pwyllgor gyda Chadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd ac unrhyw safleoedd eraill y teimlwch sy'n angenrheidiol
- ofyn i'r SCC gynnig ymgysylltiad eich cymdeithas i'r Pwyllgor Cymdeithasau.

Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch p'un ai y dylasid ymgysylltu eich cymdeithas ag Undeb y Myfyrwyr yn nwylo'r Pwyllgor Cymdeithasau, a fydd yn ystyried yn fanwl yr holl waith papur yr ydych wedi'i gyflwyno cyn dod i unrhyw benderfyniad.

Ar Ôl Ymgysylltu

Rhaid i bob cymdeithas sy'n ymgysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr:

- gyflwyno eich rhestr aelodaeth i'r SCC
- dalu ffioedd aelodaeth i'ch cyfrif **grant** (bydd rhaid i bymtheg aelod fod wedi talu cyn y byddwch yn derbyn eich grant)
- gwblhau ffurflen cais am grant ar ddiwedd pob blwyddyn.
- anfon copïau o gofnodion pob cyfarfod at y SCC
- gyflwyno canlyniadau etholiadau ar gyfer pob safle pwyllgor i'r SCC
- anfon o leiaf un cynrychiolydd pwyllgor i bob Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithasau, ac o leiaf dri chynrychiolydd pwyllgor i bob Cyfarfod Cyffredinol Undeb y Myfyrwyr
- gwblhau asesiadau risg lle bo hynny'n gymwys (gwelwch Ellie, y Gweinyddwr Cymdeithasau, am fanylion)
- ymlynu wrth y polisïau sydd wedi'u gosod yng Nghyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr.

Gwybodaeth Gyffredinol

Serendipedd 1 a 2

Serendipedd yw ein Ffair y Glas (ym mis Medi) a'n ffair adnewyddu (ym mis Ionawr). Mae gan gymdeithasau ymgysylltiedig yr hawl i stondin yn Serendipedd yn rhad ac am ddim, ond **dim ond** os oes cais wedi cael ei wneud am stondin ar eich ffurflen cais am grant. Mae'r gofod yn llenwi'n gyflym iawn felly mae'n hanfodol neilltuo stondin ymhell ymlaen llaw.

Mae gan bob stondin gwerth dwy ddesg arholiad o ofod; ceisiwch wneud i'ch stondinau edrych mor ddiddorol â phosib, gyda digonedd o ddeunydd (**dwyieithog**) ar y ddesg. Dilynwch gyfarwyddiadau'r SCC ynghylch gosod a chlirio pob dydd. Bydd ffurflenni aelodaeth a thaflenni talu-i-mewn yn cael eu darparu.

Cyfarfodydd Cyffredinol Cymdeithasau

Bydd Cyfarfodydd Cyffredinol Cymdeithasau'n cael eu cynnal ar wahanol adegau dros y flwyddyn ac maent yn gyfle i gymdeithasau ddod at ei gilydd a thrafod materion sy'n effeithio ar gymdeithasau, yn ogystal â dod i nabod ei gilydd a'r SCC.

Bydd CyddCC yn cael eu hysbysebu ar y Fewnrwyd a thrwy e-bost. Mae Cyfansoddiad UM yn nodi y caiff unrhyw gymdeithas nad yw'n anfon cynrychiolaeth o un aelod o leiaf i'r CCC rybudd ffurfiol ysgrifenedig gan y SCC. Bydd cymdeithasau sy'n methu dau CCC yn olynol heb ymddiheuriadau'n cael rhewi eu cyfrifon grant am ddeufis. Caiff cymdeithasau sy'n methu tri CCC eu diddymu o UM am o leiaf flwyddyn.

Pwyllgor Cymdeithasau

Yn CCC cyntaf y flwyddyn, caiff pedwar cynrychiolydd cymdeithasau eu hethol i'r Pwyllgor Cymdeithasau. Y cynrychiolwyr hyn hefyd fydd Cynghorwyr Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli'r Cymdeithasau. Mae Cyngor UM yn cyfarfod unwaith bob tair wythnos i benderfynu ar bolisi UM ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar ein myfyrwyr. Mae Cynghorwyr yn gwrando ar adroddiadau o wahanol adrannau o UM ac yn dal Pwyllgor Gwaith UM i gyfrif.

Mae'r Pwyllgor Cymdeithasau'n cyfarfod bob dydd Gwener cyn pob Cyfarfod Cyngor i benderfynu ar p'un ai i ymgysylltu cymdeithasau newydd, i drafod cynigion polisi sydd yn mynd i gael eu cyflwyno a thrafod materion cyffredinol sy'n effeithio ar gymdeithasau.

Ystafell Gotiau

Caiff dyddiadau ar gyfer yr ystafell gotiau eu dyrannu yn CCC cyntaf y flwyddyn. Fe gaiff eich cymdeithas y cyfle i redeg yr ystafell gotiau am wythnos. Mae hwn yn gyfle rhagorol i godi arian, felly dewch i'r CCC i gael slot.

Mae rhedeg yr ystafell gotiau'n fenter gymhleth sydd angen canllawiau manwl. Bydd y SCC yn anfon y rhain at bob cymdeithas sy'n ymgymryd â dyletswyddau'r ystafell gotiau.

Cyllid

Llywodraethir Undeb y Myfyrwyr gan gyfraith elusen a Deddf Addysg 1994, felly mae'n rhaid iddo ymlynu wrth reoliadau ariannol caeth. Mae holl Swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn ymddiriedolwyr elusen Undeb y Myfyrwyr, sy'n ein gwneud yn gyfrifol yn gyfreithiol am safle ariannol yr Undeb. Felly mae'n rhaid i ni fod yn llym iawn gyda'ch arian chi - ddrwg gennym am hynny!

Rheoliadau Ariannol

Dyma'r rheolau:

1. **Rhaid** i bob gweithrediad ariannol gael ei brosesu gan y Swyddfa Gyllid. Hyd yn oed pan fo gennych ddigon o arian parod i dalu eich treuliau heb fynd i'r Swyddfa Gyllid. Mae'n hanfodol fod gennym gofnodion o bob gweithrediad ariannol ar gyfer ein harchwilwyr.
2. Rhaid i bob archeb gael ei wneud drwy'r SCC er mwyn i mi allu rhoi rhif archeb i chi. Ni fydd y Swyddfa Gyllid yn awdurdodi taliad os nad yw'r gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn, fydd yn gadael eich aelodau allan o boced.
3. Caiff taliadau eu gwneud yn unig pan gyflwynir derbynneb neu anfoneb *pro-forma*.
4. Ni chaniateir i gyfrifon fynd i orddrafft; mae'n fater i'r SCC a'ch Trysorydd sicrhau fod gennych ddigon o arian wrth gefn cyn awdurdodi unrhyw bryniadau.
5. Ni chaniateir cyfrifon banc allanol.
6. Bydd taliadau sy'n uwch na £50.00 y person/mudiad y dydd yn cael eu gwneud drwy siec. Mae yna gyfnod aros o 3-5 diwrnod am sieciau.
7. Rhaid cymeradwyo pob contract gan y Llywydd a'r SCC, e.e. benthyciadau rhwng clybiau.
8. Rhaid awdurdodi pob gwariant gan Drysorydd y gymdeithas.

Os ydi hyn i gyd yn ymddangos ychydig yn ddryslyd, anfonwch eich Trysorydd at un o'r sesiynau hyfforddiant ariannol a gynhelir ar wahanol adegau drwy'r flwyddyn. Cysylltwch â'r SCC am fanylion.

Er mwyn cydymffurfio gyda rheoliadau statudol, mae'r Swyddfa Gyllid yn dal cofnodion am eich holl weithrediadau ariannol am chwe blynedd. Mae gennych yr hawl i archwilio'r cofnodion hyn ar gais.

Cyfrifon

Mae gan bob cymdeithas ddau gyfrif: cyfrif Grant a chyfrif Codi Arian (C/A).

Yn ôl y disgwyl y cyfrif **Grant** yw'r cyfrif y telir eich grant gan yr Undeb iddo. Rhaid i ffioedd aelodaeth eich cymdeithas hefyd gael eu talu i'r cyfrif hwn.

Ni thelir eich grant i'ch cyfrif nes bod y SCC yn fodlon fod pob gweithdrefn briodol wedi cael ei dilyn e.e. o leiaf bymtheg ffi aelodaeth wedi'u talu i mewn.

Penderfynir ar wariant arian grant a ffioedd aelodaeth yn ôl doethineb y SCC, a dylai yn gyffredinol fod ar eitemau sydd o fudd i'r grŵp yn ei gyfanrwydd. Caiff blaenoriaeth ei roi i eitemau a nodir ar eich ffurflenni cais am grant. Ni all gwariant wrthdaro gyda Chyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr (http://www.undeb.bangor.ac.uk/dem).

Gwariant a ganiateir o'ch cyfrif grant:

- offer (i'w brynu gan ddelwyr cydnabyddedig a'r anfonebau i'w hanfon at UM gan ddyfynnu'r rhif archeb a gafwyd gan y SCC)
- costau teithio gan gynnwys minibysys (gwelwch isod am raddfeydd milltiredd)
- deunydd swyddfa, printio a phostio
- ffioedd a threuliau siaradwyr (dim mwy na £50 yr achlysur; bydd costau ychwanegol yn cael eu talu allan o ffioedd mynediad a godir am ddarlith)
- aelodaeth â mudiadau allanol (pe bai gweithgareddau arferol cymdeithas yn cael eu cwtogi heb ei dalu)
- ffonau symudol (caiff galwadau allanol wedi'u monitro i UM eu had-dalu yn ôl doethineb y SCC ac yn dilyn archwilio'r bil ffôn)

Eitemau na chewch chi ddefnyddio arian grant ar eu cyfer:

- cyfraniadau at unrhyw fudiad os nad yw'r clwb yn derbyn unrhyw fudd amlwg o wneud y taliad
- bwyd
- diod
- digwyddiadau cymdeithasol
- rhoddion
- nawdd
- teithiau tramor

Dylai'r cyfrif **Codi Arian** gael ei ddefnyddio at unrhyw arian arall yr ydych yn ei dderbyn. Mae yna lai o reolau dros wariant o'r cyfrif hwn, ond dylai unrhyw wariant dal fod yn unol â Chyfansoddiad UM a dylai gael ei brosesu gan y SCC a'r Swyddfa Gyllid.

Cyfrifoldeb y Trysorydd yw sicrhau fod cyfraniadau unrhyw aelod (ar gyfer pryniadau fel crysau cwfl neu gostau taith) yn cael eu talu i'r cyfrif hwn. Os nad oes cyllid digonol ar gael, **ni thelir** anfonebau. Rhaid i'r cyfraniadau hyn gael eu casglu **cyn** bod archeb yn cael ei osod.

Ni fydd Undeb y Myfyrwyr yn derbyn cyfrifoldeb dros orddrafft; os dilynir y gweithdrefnau uchod, ni ddylai cyfrifon fyth fynd i orddrafft.

Defnyddio'r Swyddfa Gyllid

Dylai pob gweithrediad ariannol yr ydych yn ei wneud yn y Swyddfa Gyllid gael ei wneud gydag un o bedair taflen. Dylai taflen werdd gael ei defnyddio wrth dalu arian i mewn; wrth hawlio arian (i ad-dalu rhywun sydd wedi gwneud taliad o'u poced eu hunain) dylid defnyddio taflen binc a **derbynneb**, mae angen taflen las ar gyfer arian sy'n cael ei drosglwyddo ac mae angen taflen felen ar gyfer talu anfoneb (a'r anfoneb ei hun). **Rhaid** i bob alldyniad, taliad a throsglwyddiad gael ei awdurdodi gan y Trysorydd (neu'r Cadeirydd os yw'r Trysorydd yn dymuno cael ei ad-dalu) a'r SCC. Peidiwch â gofyn i Swyddogion UM eraill awdurdodi'r ffurflenni hyn.

Bydd sesiynau hyfforddi ar gyfer trysoryddion yn cael eu cynnal ar wahanol adegau drwy'r flwyddyn. Cadwch lygad ar gyfrif e-bost a thwll colomen eich cymdeithas am fanylion ynghylch hyfforddiant sydd i ddod.

Cyfleusterau Undeb y Myfyrwyr

Minibysys

Dylai pob minibys gael ei neilltuo drwy Ellie, Gweinyddwr y Cymdeithasau. Dim ond aelodau o gymdeithasau sydd wedi pasio prawf MIDAS a gaiff yrru minibysys yr Undeb. Er mwyn cymryd prawf MIDAS, rhaid i yrwyr fod yn 21 oed o leiaf ac wedi dal trwydded yrru lawn am o leiaf dair blynedd. Mae gan UM ei aseswr MIDAS ei hun (Patrick Hogan).

Ni chaiff y rheiny sydd wedi pasio eu prawf gyrru ar ôl Ionawr 1997 dynnu trelar gyda minibys. Ni ellir mynd â minibysys dramor.

Mae gyrrwr unrhyw finibys yn gyfrifol yn gyfreithiol am y cerbyd unwaith y mae wedi llofnodi amdano. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros y teithwyr, er enghraifft sicrhau nad oes yna unrhyw alcohol yn cael ei gymryd i'r minibys, a bod y teithwyr yn gwisgo gwregysau diogelwch.

Rhaid casglu allweddi minibys o'r dderbynfa **yn ystod oriau agor.** Mae'r dderbynfa'n cau am 5:30yh ar ddyddiau gwaith. Nid yw ar agor ar ddydd Sadwrn ac mae'n agor am awr yn unig ar fore Sul (9yb – 10yb).

Dylid dychwelyd allweddi, cerdyn tanwydd ac unrhyw beth arall a gafwyd ei fenthyg i'r dderbynfa yn ystod oriau agor, neu eu postio drwy'r blwch llythyrau ar y chwith i'r drws ffrynt pan fo'r dderbynfa wedi cau.

Bydd y gost filltiredd priodol yn cael ei dynnu yn awtomatig o'ch cyfrif grant neu gyfrif codi arian (gwelwch y Swyddfa Gyllid am fanylion o'r prisiau cyfredol).

Rhaid cwblhau ffurflenni cofrestru taith o leiaf 36 awr cyn gadael. Mae'r ffurflenni hyn ar gael gan Ellie.

Gwefannau

Mae pob cymdeithas wedi'i restru yn adran gymdeithasau'r wefan (<http://www.undeb.bangor.ac.uk/clubs>). Dylai pob cymdeithas gynhyrchu rhywfaint o gynnwys ar gyfer yr adran hon o'r wefan, efallai'n cynnwys disgrifiad o'r gymdeithas, digwyddiadau sydd i ddod a rhywfaint o ddelweddau. Mae hyn yn ffordd arbennig o dda o roi cyhoeddusrwydd i'ch cymdeithas i lasfyfyrwyr, sy'n aml yn edrych am gymdeithasau diddorol ar ein gwefan pan eu bod yn cyrraedd.

Mae hefyd gan gymdeithasau'r hawl i ofod ar y we ar borwr UM; bydd cyfeiriad eich gwefan yn y fformat http://www.undeb.bangor.ac.uk/enw eich cymdeithas. Os yr hoffech gael cymorth yn llunio gwefan ar gyfer eich cymdeithas, siaradwch gyda'r SCC a fydd yn trefnu apwyntiad i chi gydag Aled, y Rheolwr TG.

E-bost

Mae pob cymdeithas yn awtomatig yn derbyn cyfeiriad e-bost yn y fformat enw eich cymdeithas@undeb.bangor.ac.uk. **Rhaid** gwirio'r cyfrif hwn yn rheolaidd gan aelod o'ch pwyllgor gan mai hwn yw'r prif gyfeiriad cyswllt a ddefnyddir gan y SCC, staff UM a chlybiau a chymdeithasau eraill. Os yr hoffech gael mwy nag un cyfeiriad, neu os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cysylltwch â'r SCC am gymorth.

Er mwyn gwirio eich e-bost, ewch at http://www.undeb.bangor.ac.uk, cliciwch ar 'gwebost' ("*webmail*") a nodwch eich enw defnyddiwr a chyfrinair. Fel arall, mae gan UM Ystafell Gyfryngau gydag 8 o gyfrifiaduron, 2 sganiwr a phrintiwr/llungopïwr. Dim ond ar gyfer pobl gydag enw defnyddiwr a chyfrinair UM mae'r cyfrifiaduron hyn ar

gael, felly ni fydd eich enw defnyddiwr safonol PCB yn gweithio. Mae'ch enw defnyddiwr a chyfrinair yr un fath ar gyfer mewngofnodi i'r cyfrifiaduron hyn ac ar gyfer gwirio eich e-bost.

Mae gan y cyfrifiaduron hyn amrywiaeth o feddalwedd ar gyfer cynllunio posteri a thaflenni, yn ogystal â meddalwedd safonol fel *Microsoft Office*. Mae yno fwrdd mawr ar gyfer cyfarfodydd, a gellir trefnu gofod storio ar gyfer eich cymdeithas yn yr ystafell hon. Pan ydych wedi mewngofnodi i'r cyfrifiaduron hyn gellir cael mynediad i'ch e-bost drwy ddefnyddio *Microsoft Outlook*. Os ydych yn ansicr ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw rai o'r cyfleusterau technegol, siaradwch os gwelwch yn dda gyda'r SCC neu Aled, ein Rheolwr TG.

Printio a llungopïo

Lleolir printiwr/llungopïwr mawr yn yr Ystafell Gyfryngau. Mae'n printio mewn du a gwyn a lliw. I ddefnyddio'r printiwr, bydd angen cod printio ar eich cymdeithas, fydd yn ein caniatáu ni i dynnu cost y printio'n uniongyrchol o'ch cyfrif. Os ydych yn ansicr o'r cod, yna gofynnwch i'r SCC neu i Llinos yn y Swyddfa Gyffredinol.

Dyma'r ffioedd:

A4 du a gwyn	4c
A4 lliw	12c
A3 du a gwyn	8c
A3 lliw	24c

I brintio, sicrhewch mai 'Xerox WorkCentre Pro C3545' yw'r printiwr sydd wedi'i ddethol, yna mewnosodwch eich cod pan ofynnir amdano.

I lungopïo, mewnosodwch eich cod printio a gwasgu *enter*. Os ydych yn cael anhawster yn gweithio'r llungopïwr, y peth gorau fydd gofyn wrth Aled, Llinos neu Ellie am gymorth.

Os nad oes yna bapur yn y printiwr, siaradwch os gwelwch yn dda gyda Llinos neu Ellie yn y Swyddfa Gyffredinol.

Lamineiddio, ffacsio a rhwymo

Mae gennym gyfleusterau lamineiddio, ffacsio a rhwymo yn y dderbynfa a gellir tynnu'r ffi o gyfrif eich cymdeithas. Y ffioedd (o Awst 2006 ymlaen) yw:

Lamineiddio		**Rhwymo**		**Ffacsio**	
Cerdyn credyd	20c	O dan 50 tudalen	£1.50	Y dudalen yn y DU	50c
A5	30c	Dros 50 tudalen	£2.00	Y dudalen dramor	£1.50
A4	50c				
A3	80c				

Mae yna ddisgownt o 10% wrth lamineiddio 20 neu fwy o eitemau gyda'i gilydd.

Post

Wrth ysgrifennu at fudiadau allanol, defnyddiwch gyfeiriad Undeb y Myfyrwyr os gwelwch yn dda: mae'n arbed gorfod cysylltu â phob mudiad gyda chyfeiriadau newydd bob tro bydd y pwyllgor yn newid.

Cyfeiriad UM yw:

Eich enw
Enw'ch cymdeithas
Undeb y Myfyrwyr
Ffordd Deiniol
Bangor
Gwynedd
LL57 2TH

Rhaid cyfeirio pob anfoneb at Undeb y Myfyrwyr neu ni fyddant yn cael eu talu. Rhaid i becynnau gael eu hanfon at UM lle bydd rhywun bob amser ar gael i arwyddo amdanynt fel ein bod yn gallu cadw cyfrif o p'un ai ydi archebion wedi cyrraedd ai peidio.

Mae gan bob cymdeithas dwll colomen tu allan i swyddfa'r SCC. Gwiriwch eich post yn rheolaidd os gwelwch yn dda. Mae gan y SCC yr hawl i agor unrhyw bost a dderbynnir gan gymdeithasau. Yn ystod y gwyliau, caiff unrhyw beth brys ei anfon ymlaen at gyfeiriad cartref aelod o'r pwyllgor.

Hysbysebu eich digwyddiadau

Un o brif amcanion pob cymdeithas ddylai fod cael gymaint o fyfyrwyr â phosib i gymryd rhan yn eu gweithgareddau. 'Does dim llawer o bwynt mewn trefnu gweithgareddau os nad yw pobl yn gwybod amdanynt. Mae hysbysu myfyrwyr ynghylch eich gweithgareddau'n un o'r pethau pwysicaf i'w wneud.

Cofiwch fod yn rhaid i **bob deunydd ysgrifenedig** gael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg gyda'r Gymraeg uwch ben neu i'r chwith o'r Saesneg. Gwelwch Gyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr am fwy o fanylion.

Cyfryngau Myfyrwyr

Ar hyn o bryd mae gennym dri chyhoeddiad ac un orsaf radio.

Cyhoeddir **Seren**, ein papur newydd Saesneg, yn fisol ac mae tîm Seren bob amser yn edrych am erthyglau ar weithgareddau myfyrwyr, p'un ai ei fod yn eitem fer o newyddion neu'n erthygl nodwedd lawn. Gallwch gysylltu â'r golygydd ar seren.editor@undeb.bangor.ac.uk.

Y Ddraenen yw ein papur newydd Cymraeg ac mae'n cael ei gyhoeddi tua unwaith bob deufis. Cofiwch nad oes yn rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i ysgrifennu i'r Ddraenen; fe wnaiff ein cyfieithydd eich cynorthwyo drwy gyfieithu eich erthygl i'r Gymraeg. Gallwch gysylltu â'r Ddraenen ar yddraenen@undeb.bangor.ac.uk , a gallwch gysylltu â Gareth, ein cyfieithydd ar gareth.sion@undeb.bangor.ac.uk

Mae **Ink** yn gylchgrawn newydd a gyhoeddir unwaith y tymor gan Arcanii, y Gymdeithas Saesneg). Mae'n gyhoeddiad sgleiniog sy'n canolbwyntio ar erthyglau nodwedd yn hytrach na newyddion. Gellir cysylltu ag Arcanii ar arcanii@undeb.bangor.ac.uk.

Storm FM yw ein gorsaf radio ac o ddechrau blwyddyn academaidd 2006/07 bydd yn darlledu o Undeb y Myfyrwyr. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ddarlledu drwy'r dydd a'r nos felly dylai eu gwasanaethau ehangu'n sylweddol dros y flwyddyn academaidd. Oherwydd bod Storm yn darlledu 24/7, mae'n ffordd dda o roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ar fyr rybudd. Gellir anfon hysbysiadau wedi'u sgriptio at studio@stormfm.com. Bydd Storm hefyd yn eich cynorthwyo i recordio hysbysebion os byddai'n well gennych wneud hynny (ond mae hynny'n cymryd dipyn mwy o amser).

Rhyngrwyd

Mae **Gwefan Undeb y Myfyrwyr** yno i'w ddefnyddio: anfonwch stori newyddion atom a byddwn yn ei roi yn yr adran newyddion. Rydym hefyd am ychwanegu calendr i'r wefan y gall cymdeithasau ychwanegu digwyddiadau ato drwy ddefnyddio eu henw defnyddiwr UM a'u cyfrinair. Defnyddiwch y cyfleuster hwn os gwelwch yn dda am bopeth o gyfarfodydd pwyllgor at nosweithiau cymdeithasol, perfformiadau at ddarlithwyr gwadd. Rydym eisiau i fyfyrwyr wybod am eich digwyddiadau, beth bynnag yr ydych yn ei wneud.

Mae **Mewnrwyd y Brifysgol** yn ffordd dda o adael i fyfyrwyr wybod am ddigwyddiadau, beth bynnag yr ydych yn ei wneud. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw negeseuon y byddwch yn eu gosod ar y Fewnrwyd ar ran eich cymdeithas fod yn gwbl ddwyieithog. Anfonwch unrhyw destun os gwelwch yn dda at Gareth ar gareth.sion@undeb.bangor.ac.uk i'w gyfieithu cyn ei gyhoeddi.

Ffyrdd eraill o roi cyhoeddusrwydd i'ch hunain

Mae **posteri a** thaflenni bob amser yn ffordd dda o ddal llygad pobl, ond cofiwch fod yn rhaid iddynt fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r Gymraeg uwch ben neu i'r chwith o'r Saesneg.

Mae Pwyllgor Gwaith Undeb y Myfyrwyr yn cyhoeddi **cylchlythyr** misol yn adrodd ar yr hyn sy'n mynd ymlaen yn UM. Os ydych eisiau i unrhyw beth gael ei gynnwys ynddo, anfonwch e-bost at SCC cso@undeb.bangor.ac.uk

Fe allech hefyd ganfod noddwr i'ch cymdeithas a allai eich helpu i hysbysebu.

Rhestr Aelodaeth ar gyfer ……Mis……200…

Enw	Cyfeiriad E-bost	Rhif Cerdyn UCM

Cyfansoddiad ar gyfer Cymdeithasau Undeb Myfyrwyr PCB

1. Enw'r gymdeithas fydd:

2. Bwriad y gymdeithas fydd:

3. Bydd y gymdeithas yn rhan o Undeb Myfyrwyr PCB a bydd yn ymlynu wrth ei gyfansoddiad.

4.1 Bydd y gymdeithas yn cynnwys lleiafswm o 15 o aelodau.

4.2 Bydd aelodaeth yn agored i unrhyw fyfyriwr PCB, yn unol â Pholisi Cyfleoedd Cyfartal Undeb Myfyrwyr PCB.

4.3 Caiff ffi o leiafswm o £2.50 ei godi am aelodaeth. Caiff y Pwyllgor godi'r swm yma.

5.1 Caiff y gymdeithas ei rhedeg gan Bwyllgor a etholir yn y CCB.

5.2 Bydd Pwyllgor y gymdeithas yn cynnwys Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd, a gânt i gyd eu hethol yn CCB y gymdeithas.

6.1 Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gynnull cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd hefyd yn cadeirio pob cyfarfod, cydlynu gweithgareddau'r clybiau a chysylltu gyda'r Swyddog Cysylltiadau a Chymdeithasau.

6.2 Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am roi cyhoeddusrwydd i ddyddiad a lleoliad pob cyfarfod 48 awr cyn iddo ddechrau. Mae'r Ysgrifennydd yn gyfrifol am gofnodi gweithrediadau'r cyfarfod a gweithgareddau'r gymdeithas ac am bob gohebiaeth. Mae'r Ysgrifennydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod y SCC yn derbyn cofnodion y cyfarfod.

6.3 Bydd y Trysorydd yn gyfrifol am baratoi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod a'i gyflwyno i'r Swyddog Cysylltiadau a Chymdeithasau. Mae'r Trysorydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod y gymdeithas yn ymlynu at reolau ariannol Undeb Myfyrwyr PCB.

6.4 Mae holl swyddogion etholedig y gymdeithas yn atebol i aelodau'r gymdeithas a gellir eu diswyddo os gelwir pleidlais o ddiffyg hyder. Gellir gweithredu ar bleidlais o ddiffyg hyder yn unig os oes lleiafrif o dri chwarter o'r aelodau'n pleidleisio o blaid cynnig o ddiffyg hyder.

7.1 Caiff Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) o'r gymdeithas ei chynnal yn flynyddol a bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ynddo ar weithgareddau'r flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno yn y cyfarfod hwn i'w harolygu gan aelodau'r gymdeithas.

7.2 Bydd y CCB yn ethol aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

7.3 Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol Brys gan unrhyw aelod o'r clwb os gallant arddangos cefnogaeth o leiaf dri chwarter yr aelodau ar ddechrau'r cyfarfod hwnnw

neu drwy ddeiseb a gaiff ei lofnodi yn y cyfarfod. Rhaid rhoi rhybudd o 48 awr o leiaf o CCB.

7.4 Rhaid rhoi'r cyhoeddusrwydd canlynol i CyddCB a Chyfarfodydd Cyffredinol Brys:

- e-bost at bob aelod
- hysbysiad ar y Fewnrwyd
- hysbysiad wedi'i arddangos yn Undeb y Myfyrwyr.

8.1. Caiff unrhyw offer neu eiddo sy'n perthyn i'r gymdeithas ei gadw mewn man diogel ac wedi'i warchod. Bydd pob offer neu eiddo a bwrcesir gyda chyllid y gymdeithas yn aros yn eiddo i Undeb y Myfyrwyr.

8.2 Caiff rhestr eiddo o offer y gymdeithas ei chyflwyno i'r Swyddog Cysylltiadau a Chymdeithasau ar ddechrau'r flwyddyn a chaiff ei diweddaru pan fo hynny'n briodol.

Pasiwyd y Cyfansoddiad yn y CCB/Cyfarfod Cyffredinol Brys*

Ar y…… diwrnod o …… ym mlwyddyn…….

*(dilëwch fel sy'n briodol)